BWYTEWCH Y LLYSIAU I'W LLETHU
STOPIWCH NHW RHAG MEDDIANNU'R BYD



# CARIBIAIDD!

## 45MUNUD-IAWR

## AMCAN DYSGU

- Defnyddio mapiau o'r byd, atlasau a globau i adnabod y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r gwledydd, cyfandiroedd a chefnforoedd sy'n cael eu hastudio yn y cyfnod allweddol yma.
- Defnyddio cyfeiriadau cwmpawd syml (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) ac iaith leoliadol a chyfeiriadol [er enghraifft, pell ac agos; chwith a dde], i ddisgrifio lleoliad nodweddion a llwybrau ar fap.
- Lleoli gwledydd y byd, gan ddefnyddio mapiau i ganolbwyntio ar Ewrop (gan gynnwys lleoliad Rwsia) a Gogledd a De America, gan ganolbwyntio ar eu rhanbarthau amgylcheddol, nodweddion allweddol ffisegol a dynol, gwledydd a dinasoedd mawr.
- Deall a chymhwyso egwyddorion diet iach ac amrywiol.

## ADNODDAU

- Cyflwyniad pwynt pwêr ar gyfer y wers
- Esiamplau o wahanol faint, siap a lliw buprynnau (go iawn neu luniau).

## BRASLUN Y WERS

1. Os yw'n berthnasol, ailadroddwch y wers flaenorol a phwyntiau daearyddol, gan ofyn i'r plant rannu rhywfaint o'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt a lleoli'r ardal ar fap o'r byd.
2. Ble chi'n meddwl mae hwn?
3. Beth ydych chi'n ei wybod yn barod am Ynysoedd y Caribî?
4. Gofynnwch i'r plant leoli'r Caribî ar fap o'r byd ac yna'n benodol ynysoedd allweddol fel Ciwba, Bermuda, Jamaica, Trinidad a Tobago, Barbados, Gweriniaeth Dominica a Puerto Rico gan ddod â geirfa fel Dwyrain a Gorllewin i gyfeirio at ynysoedd eraill y efallai bod plant wedi clywed amdanyn nhw.
5. Siaradwch gyda'r plant am y math o fwyd y mae'r Caribî yn adnabyddus amdano:

*Rydyn ni'n mynd i edrych ar un saig o'r Caribî rydyn ni newydd ei weld, sef reis a phys.*

*Dyma saig draddodiadol a ddaeth yn wreiddiol o Ghana ac ar hyd yr Ivory Coast yng Ngorllewin Affrica (lleolwch yr ardal hon ar eich map o'r byd i'r plant). Daeth e i'r Caribî yn wreiddiol gyda'r fasnach gaethweision, lle mae pobl yn parhau i goginio bwydydd cyfarwydd fel ffordd o ymdopi â'r amodau ofnadwy roeddent ynddo.*

*Dechreuodd y fasnach gaethweision yn y 1700au gyda tecstilau, rym a nwyddau masnachol yn cael eu cludo o Ewrop i Affrica. Roedd rhain wedyn yn cael eu cyfnewid am gaethweision (pobl a gymerwyd yn erbyn eu hewyllys) a fyddai wedyn yn cael eu cymryd i'r Americas. Byddai'r masnachwyr caethweision wedyn yn cyfnewid y caethweision am nwyddau fel siwgr, cotwm a thybaco a byddai'r rhain wedyn yn dod yn ôl i Ewrop.*

PARHAU

*Yn draddodiadol mae reis a phys yn cael eu gweini ar y Sul. Nid yw'r traddodiad dydd Sul hwn, sy'n dyddio'n ôl i gyfnod caethwasiaeth yn y 18fed ganrif, yn gyd-ddigwyddiad gan mai dydd Sul oedd yr unig ddyddiau y caniatawyd i gaethweision orffwys ac felly fe wnaethon nhw baratoi eu hoff brydau.*

*Mae digonedd o lysiau yn cael eu mwynhau yn Jamaica a'r Caribî heddiw, ond mae ffefrynnau Jamaica yn cynnwys "callaloo" (llysieuyn gwyrdd yn debyg i sbigoglys), bresych, okra, pwmpen a taten felys (neu "boniato"), plantain, cassava a phuprynnau - yn cynnwys y rhai "twym" fel scotch bonnet a'r rhai "melys".*

### Gweithgaredd

1. Gofynnwch i'r plant rannu'n grwpiau bach (3-4) a chreu banc geiriau o ansoddeiriau y gallen nhw ei ddefnyddio i ddisgrifio pupur mae nhw am ei "werthu". Mae cael darnau o buprynnau neu wahanol maint/lliw/siap pupur ar y bwrdd yn gallu bod yn ddefnyddiol yma, neu luniau o burpynnau. Mae angen iddynt feddwl am flas y puprynnau, gan wneud yn siŵr bod y melyster yn cael ei amlygu a hefyd gynnwys nodweddion eraill a fyddai'n gwneud i'r cwsmer fod eisiau prynu eu cynnyrch, fel lliw a maint.
2. Yna gall y plant ddylunio eu pecyn eu hunain ar gyfer puprynnau o'u dewis a'i gyflwyno i weddill y dosbarth gan rannu'r syniadau y maent wedi penderfynu arnynt fel grŵp a pham y dylai pobl eraill ei brynu.

### *Llenwi'r wybodaeth o'r wers ar y map*

O'r wybodaeth sydd wedi cael ei rannu yn y wers heddiw, cwblhewch y blwch ar fap y byd y *plant sy'n berthnasol i'r Caribî.*

## BRASLUN Y WERS

- Cysylltu'r wers hon gyda straeon Jamaica 'Anansi'.

## GWEITHGAREDDAU PELLACH / GWAITH CARTREF



CARIBIAIDD

AM FWY O ADNODDAU ADDYSG ARBENNIG EWCH I:

EatThemToDefeatThem.com

© Veg Power CIC 2024

